
# Pa goed sydd yn tyfu mewn Coedwig Law Celtaidd?

Yn yr ymchwiliad hwn byddwch yn dysgu am y coed brodorol sydd yn creu strwythur Coedwigoedd Glaw Celtaidd.




Edrychwch ar siâp y ddeilen yn y logo.. Beth yw'r goeden yma a pham wnaethon ni dewis y goeden yma ar gyfer y logo tybed?

COeDWIGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

NATURA 2000

# Beth yw Coedwig Law Celtaidd?



Dyma rhai nodweddion Coedwig Law Celtaidd:

- Coed hynafol iawn, rhai dros 400 mlwydd oed!
- Gwahanol fathau o goed brodorol, a choed o wahanol oedrannau
- Creigiau mawr wedi eu gorchuddio â mwsogl, coed sydd wedi marw a boncyffion yn pydru

Ac yn bwysicaf oll... llawer iawn, iawn o ddŵr glaw!

COeDWiGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

NATURA 2000

# Y coed mawr hynafol…



Coed derw sydd yn tueddu fod y coed hynaf yn y goedwig law Celtaidd. Mae coed derw’n gallu byw am fwy na 1,000 o flynyddoedd.

Ym mis Ebrill 2013 cwympodd derwen Pontfadog, derwen hynaf Cymru ac mae'n debyg un o'r hynaf yng ngogledd Ewrop. Dywedir iddi dyfu yn Y Waun ger Wrecsam ers y flwyddyn 802.

Mae’r dderwen yn cynnal mwy o fywyd gwyllt nac unrhyw goeden arall. Fedrwch chi resymu pam?



“ … mae coeden dderw yn gwario 300 mlynedd yn tyfu, 300 mlynedd yn fyw a 300 mlynedd yn farw”

COeDWIGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

NATURA 2000

# Oes fath o goeden hynafol arall?

Mae'r goeden 'Pisgwydden dail bach' yn goeden arall cynhenid gall fyw am gannoedd o flynedd.

Mae llai o'r coed yma i'w darganfod yn ein Coedwigoedd Law Celtaidd ond os cewch hyd i enghraifft hen mae'n arwydd da fod eich boch chi mewn coedwig hynafol.

Mae'r dail yn cael ei fwyta gan lindys nifer o wyfynod yn ogystal â phryfed gleision sydd yn fwyd i ysglyfaethwyr fel pryfed, buwch goch gota ag adar. Mae'r blodau'n denu pryfed yn enwedig gwenyn.




Pam mae cael coed mor hen yn bwysig tybed?

Beth arall fedrwch chi ddarganfod ar-lein am y bisgwydden dail bach (small leaved lime)?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Y Bedwen…

Mae'r goeden bedw yn un o'r rhywogaethau pwysig iawn yn y Goedwig Glaw Celtaidd. Mae o'n rhywogaeth arloesol sydd yn golygu mae'n tueddu tyfu lle mae 'na bwlch, ac yn ei thro bydd derw yn cymryd drosodd.



Mae'r dail bach yn gadael i beth o'r olau drwodd i'r haenau gwaelod o'r goedwig. Gall coed bedw creu cynefin i tua 300 o rywogaethau pryfed.




Dyma linc i fideo o ddail y Fedwen yn blaguro.

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

# Beth am Yr Onnen?

Mae’r onnen yn goeden arall cynhenid sydd yn cael ei ddarganfod mewn Coedwigoedd Law Celtaidd.



Mae’r onnen yn bwysig ar gyfer cen. Mae hyn oherwydd mae patrwm y dail yn gadael i golau cyrraedd y boncyff a’r ffaith bod y plisgyn yn alcali. Mae rhai rhywogaethau o gen angen plisgyn gyda pH uchel (alcali).

Mae pryder mawr bydd y clefyd coed ynn (Chalara), sydd yn lledu dros Gymru ac yn lladd coed ynn, yn mynd i fygwth nifer o gennau brin.

Pa goed eraill sydd gyda phlisgyn alcali tybed?



Beth arall fedrwch chi ddarganfod ar-lein am y clefyd coed ynn (ash dieback) a’r effaith ar gen prin?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

# Beth yw stori'r Llwyfen lydanddail?

Erbyn heddiw mae coed Llwyfen lydanddail yn weddol brin mewn Coedwigoedd Law Celtaidd ond mi roedden nhw'n arfer bod yn gyffredin iawn.

**Pam does dim lawer o lwyfan lydanddail o gwmpas?**

Yn ystod y 1960au ymestynnodd 'clefyd llwyfen yr Iseldiroedd' ar draws Prydain a lladd canran mawr iawn o'r coed llwyfen lydanddail.

Fel yr onnen, mae plisgyn coed Llwyfen yn alcali. Felly, mae nifer o gen roedd yn arfer byw ar lwyfen yn fyw ar onnen heddiw. Oherwydd mae'r onnen yn marw hefyd, mae'r cadwraethwyr yn poeni am ddyfodol y cen.



Beth arall fedrwch chi ddarganfod ar-lein am y clefyd llwyfen yr Iseldiroedd (Dutch elm disease)?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU

CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

# Masarnen…

Dydy’r fasarnen ddim yn goeden gynhenid ac felly dim yn goeden draddodiadol y Goedwig Law Celtaidd.

Ond, oherwydd y ffaith bod y plisgyn yn alcali a’r ffaith bod gymaint o goed Onnen yn marw; mae rhai cadwraethwyr yn credu, er lles cen, ni ddylen ni tynnu coed Masarnen o Goedwigoedd Glaw Celtaidd.





Mae dail masarnen yn creu mwy o gysgod na dail onnen felly efallai bydd angen rheoli hyn er lles cen os maen nhw am lenwi’r bwlch cynefin cen.

Ydach chi wedi chwarae gyda’r hadau – beth rydym yn galw nhw?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000 Life

# Collen …

Mae coed cyll yn elfen bwysig o'r is-canopi.

Maen nhw'n gallu tyfu hyd at tua 12m ond yn aml byddant nhw'n llai na hyn oherwydd ei fod nhw wedi cael ei prysgoedio. Dilynwch y linc ac ewch i'r 3ydd funud er mwyn ddysgu mwy am hyn.





Efallai 'dach chi'n gyfarwydd gyda'r ffrwythau sydd yn gnau bwytadwy!



Beth yw'r enw arbennig ar gyfer y blodau gwrywaidd goed cyll?

COeDWIGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU

CeLTIC RAINFORESTS WALeS

NATURA 2000

Life

# Gwernen …

Mae coed gwern yn tyfu mewn llecynnau gwlyb felly maen nhw dueddu cael ei ddarganfod ger nentydd ac mewn ardaloedd lle mae dŵr yn hel.

Mae'r pren y wernen yn gwrthsefyll pydru os mae o'n cael ei chadw'n wlyb. Mae hefyd yn gwneud siarcol da felly mae o'n rhywogaeth bwysig i bobl yn ogystal â bywyd gwyllt.





Allwch chi ddweud y gwahaniaeth rhwng coed gwern a choed coll ..? Edrychwch yn ofalus mae'r dail yn debyg ond mae 'na gwahaniaethau!

COeDWIGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

NATURA 2000

# Criafolen / Cerdinen …

Efallai wnewch chi ddarganfod y goeden yma yn y goedwig law Celtaidd ond oherwydd ei fod yn gallu byw mewn ardaloedd oer hefyd cewch hyd iddo ar fynyddoedd.

Mae'r blodau tlws a'r aeron coch yn golygu mae hefyd yn cael ei blannu mewn gerddi. Mae adar yn hoff iawn o'r aeron ond mae'r goeden hefyd yn ffefryn gan rhai gwyfynod.



Ydy o'n bosib i bobl fwyta aeron Cerdinen? …
Os felly, beth mae pobl yn gwneud gyda nhw?

COeDWIGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

NATURA 2000

# Helyg

Mae coed helyg yn tueddu fod yn goed sydd yn tyfu ar dir gwlyb.

Dydy coed helyg ddim yn arwyddocaol o goedwig hynafol na Choedwig Glaw Celtaidd ond maen nhw'n gallu fod yn elfen ohonynt mewn llecynnau gwlyb.

Mae nifer o rywogaethau o helyg, mae rhai yn cael ei prysgoedio ar gyfer chreu basgedi.





Pa ddefnydd arall sydd gan bobl ar gyfer helyg (willow)?
Beth fedrwch chi ddarganfod trwy wneud ymchwil ar-lein?


COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

# Ffawydden

Mae coed ffawydd yn gynhenid i Dde Lloegr a De Gymru yn unig. Gan fod nhw'n gallu tyfu'n fawr iawn a chystadlu gyda choed derw, nad ydynt yn goeden ffafriol i gael mewn Coedwig Law Celtaidd.

Er hyn, mae coed ffawydd yn gallu fod yn elfen bwysig o goedwigoedd hynafol mewn rhannu eraill y Deyrnas Unedig.





Gwyliwch y fideo yma er mwyn gweld y lliwiau llachar mae'r dail yn troi yn ystod yr hydref.

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

# Castanwydden Y Meirch

Er mai o'n coeden gollddail nid yw'r Gastanwydden y Meirch yn gynhenid i'r Deyrnas Unedig felly dydy o ddim yn rhywogaeth ddymunwn gael yn tyfu yn y Goedwig law Celtaidd.

Fel rhan o'n Gwaith cadwraeth rydym yn ceisio cael gwared â rhywogaethau sydd ddim yn gynhenid o'n Coedwigoedd Glaw Celtaidd.









Pa gêm yw plant yn chwarae gyda hadau'r goeden yma?

COeDWIGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

NATURA 2000 Life

# Pinwydden yr Alban

Roedd coed pinwydd yr Alban un o’r rhywogaethau cyntaf i dyfu ar draws Prydain wrth i’r rhewlifau diflannu.

Maen nhw’n gallu ffurfio elfen bwysig o’r cymysgedd coed mewn Coedwig Law Geltaidd yng Nghymru ond maen nhw’n elfen bwysicach mewn Coedwigoedd Glaw Celtaidd Yr Alban.





Mae o’r unig goeden pinwydd sydd yn frodorol i’r Deyrnas Unedig.

Pa adar sydd yn hoff iawn o hadau pinwydd?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

# Celyn…



Mae celyn yn creu le ar gyfer adar cysgodi, ac mae’r dail a blodau yn bwysig ar gyfer rhai pryfed. Mae’r aeron coch yn fwyd i adar ag anifeiliaid a mamaliaid bach.

Mewn rhai llefydd mae’n tyfu’n drwchus iawn a chreu gormod o gysgod felly rydym yn ei rheoli er mwyn creu mwy o olau ar gyfer rhywogaethau eraill.

Mae’r celyn yn goeden fythwyrdd gynhenid sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer addurniadau'r Nadolig.

Cewch ddysgu mwy am ein gwaith rheoli celyn yn funud 3:50 o’r fideo yma: https://youtu.be/e3pbhZV6QpU

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Coed bythwyrdd eraill fel conwydd a phinwydd

Mae nifer o goed eraill bythwyrdd gawn hyd i mewn coedwigoedd yng Nghymru. Yn aml mae'r coed yma wedi cael ei blannu.

Gan fod nhw ddim yn gynhenid dydyn nhw ddim yn cynnal gymaint o fioamrywiaeth a'r coed brodorol ac os maen nhw wedi cael ei blannu'n agos i'w gilydd maen nhw'n creu gormod o gysgod i'r planhigion y goedwig law tyfu.



Faint o wahanol fath o goed bythwyrdd fedrwch chi ddarganfod yn eich ardal chi?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000 Life

# Adfer Coedwigoedd Glaw Celtaidd

Un o'r pethau rydym yn gwneud trwy'r prosiect ydy ceisio adfer Coedwigoedd Glaw Celtaidd sydd wedi cael ei dinistrio trwy blannu coed bythwyrdd neu gollddail sydd ddim yn gynhenid.



Cewch ddysgu mwy am sut yr ydym yn gwarchod ein Coedwigoedd Glaw Celtaidd yma https://dev.coedwigoeddglawceltaidd.cymru/what-do-we-need-to-do-to-conserve-the-celtic-rainforest

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

# Beth am ddysgu mwy am rhai o'r coed yma?



Dewiswch fath o goeden ac ewch ati i ddysgu mwy am eich coeden.

Fedrwch chi greu cyflwyniad i rannu gyda disgyblion eraill?

Neu …

Creu darn o waith creadigol fel celf neu farddoniaeth am eich coeden?

Fedrwch chi ddysgu sut i adnabod eich coeden yn y gaeaf hefyd?

COeDWiGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS

NATURA 2000

Life

# Dolennau defnyddiol

- https://www.plantlife.org.uk/application/files/7116/1650/5500/Plantlife_Ash_dieback_and_lichens_in_England.pdf
- https://www.woodlandtrust.org.uk/trees-woods-and-wildlife/british-trees/a-z-of-british-trees/ https://www.britishlichensociety.org.uk/resources/lichens-ash
- https://www.nature.com/articles/491672a.pdf
- https://www.field-studies-council.org/shop/publications/tree-name-trail/
- https://www.woodlandtrust.org.uk/blog/2018/12/which-trees-have-catkins-and-how-to-tell-them-apart/?gclid=CjwKCAjw_L6LBhBbEiwA4c46uq000A0ZVFELDkQzqnHd1yXD_fCsP0HNAzO1pe6I9MgQlgTUfZbo3hoC4ZUQAvD_BwE&gclsrc=aw.ds

COeDWiGOeDD GLAW CeLTAIDD CYMRU
CeLTIC RAINFOReSTS WALeS